

Sefydlwyd **Cymdeithas Bysgota Dolwyddelan** ar ddechrau'r 1940au gyda'r gymdeithas yn rhentu rhannau o'r Afon Lledr rhwng pentref Dolwyddelan a Phont y Pant. Mae'r gymdeithas nawr yn berchen ar neu yn rhentu dwy lan yr afon o bont Dolwyddelan i bont Pont y Pant.

Sewin ac eog sydd yn yr afon gan fwyaf gyda'r Eog yn heigio i fyny ym mis Awst a mis Medi yn bennaf. Cafodd yr afon ei stocio gyda brithyll brown rai blynyddoedd yn ôl ac mae rhai o'r rhain yn dal yn yr afon.

Mae tocynnau ar gael i bobl yr ardal gan yr Ysgrifennydd, Dave Foster, 17 Rhes y Castell, Dolwyddelan (yr hen Swyddfa Bost).

- Oedolion - £30.00 - ailymaelodi £15.00
- Plant neu fyfyrwyr - £1.00
- Tocyn tymor i ymwelwyr - £75.00
- Perchnogion tŷ haf - £35.00
- Tocyn brithyll diwrnod i oedolyn - £10.00
- Tocyn wythnos, 7 diwrnod - £20.00

Tymor Cynnar 3<sup>ydd</sup> o Fawrth hyd yr 30<sup>ain</sup> o Fehefin  
Eog 1<sup>af</sup> o Orffennaf hyd yr 17<sup>eg</sup> o Hydref



Mae tocynnau diwrnod a thocynnau wythnos ar gael yn **SPAR** hefyd



## **DOLYDDELEN A'R FRO - 17eg o Awst 1877**

EIN HEDDLU – Mae gennym ddau swyddog yn Nolyddelen, er nad oes angen yr un arnom mewn gwirionedd. Dywedant fod llawer mwy o angen heddwras ar Gapel Curig nac yma. **Ellis o'r Nant**